

**Newidiadau i
Gymhorthdal Incwm i
rieni unigol a Lwfans
Ceisio Gwaith i bob rhiant**

Cam 2 o 26 Hydref 2009

Cam 3 o 25 Hydref 2010

www.direct.gov.uk/cy

canolfan**byd**gwaith

Rhan o'r Adran Gwaith
a Phensiynau

Newidiadau i Gymhorthdal Incwm i rieni unigol a Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant

Cyflwyniad

Ar 24 Tachwedd 2008, cyflwynwyd newidiadau i Gymhorthdal Incwm i rai rhieni unigol ac i Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant. Cyfeiriwch at Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Rhieni Unigol a Newidiadau Amrywiol) 2008; mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar-lein.

www.opsi.gov.uk/si/si2008/draft/ukdsi_9780110843285_en_1

Mae'r Rheoliadau'n nodi, o 2010, na fydd hawl gan rieni unigol â phlentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu'n hŷn i gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig. Yn hytrach, gall y rheini sy'n gallu cymryd gwaith â thâl wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r Rheoliadau'n cydnabod y bydd rhai rhieni unigol a rhieni yn wynebu amgylchiadau y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt a darparu hyblygrwydd ychwanegol yn rheolau'r Lwfans Ceisio Gwaith i ddiwallu eu hanghenion unigol. Gall y rhieni unigol hynny sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Bwriad y pecyn gwybodaeth hwn yw rhoi gwybodaeth am y newidiadau, cynorthwyo dealltwriaeth a galluogi sefydliadau allanol i ymdrin ag ymholiadau gan gwsmeriaid.

1. Cefndir	4
2. Newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant	7
3. Amserlen ar gyfer symud rhieni unigol oddi ar Gymhorthdal Incwm	10
4. Newidiadau ar gyfer grwpiau penodol	11
5. Taliadau a didyniadau eraill	13
6. Y broses ar gyfer terfynu Cymhorthdal Incwm	14
7. Rhoi gwybod i rieni unigol am y newidiadau	16
Atodiad 1 – Pecyn cymorth	18
Atodiad 2 – Amserlen Newidiadau	19
Atodiad 3 – Cam 2 Llythyrau Cyfweliad Gwirfoddol	27
Atodiad 4 – Cam 3 Llythyrau Cyfweliad Gwirfoddol	33
Atodiad 5 – Cam 2 Llythyrau'r Ymgyrch Bostio	39
Atodiad 6 – Cam 3 Llythyrau'r Ymgyrch Bostio	42
Atodiad 7 – Gwybodaeth ddefnyddiol a dolenni	46

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae 2.9 miliwn o blant yn byw mewn tlodi. Yn ogystal â gwneud teuluoedd yn well eu byd, mae gan waith â thâl fuddiannau pwysig eraill yn cynnwys gwella iechyd a lles a rhagolygon rhieni a phlant ar gyfer y dyfodol.
- 1.2 Ers 1997 gwnaed cynnydd sylweddol yn y gwaith o godi'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer rhieni unigol i 56.3 y cant ond rydym yn wynebu heriau mawr o hyd i ddileu tlodi plant. Mae dros hanner – 58 y cant – o blant mewn teuluoedd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio yn byw mewn tlodi, o gymharu â 19 y cant o blant rhieni unigol sy'n gweithio'n rhan-amser a 7 y cant o'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser.
- 1.3 Mae polisiâu'r Llywodraeth ar gyfer rhieni unigol, felly, yn gydbwysedd rhwng rhoi cymorth ariannol a chymorth arall i gynorthwyo eu teuluoedd a chyfrifoldebau ehangach i godi teuluoedd a phlant allan o dlodi. Ar y sail hon, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'r egwyddor, y dylid disgwyl i rieni unigol sy'n gallu gweithio ac yn hawlio budd-daliadau chwilio am waith â thâl, unwaith y bydd eu plant yn hŷn.

Y newidiadau

- 1.4 O 24 Tachwedd 2008, ni fydd hawl gan y rhan fwyaf o rieni unigol â phlant hŷn sy'n gwneud cais newydd neu sy'n gwneud ailgeisiadau am fudd-dal i gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig mwyach.
- 1.5 O 2010, ni fydd hawl gan y rhan fwyaf o rieni unigol â phlentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu'n hŷn gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig mwyach. Yn hytrach, gall y rhai a fydd yn gallu cymryd gwaith â thâl wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith a gall y rheini ag anabledd neu gyflwr iechyd wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno mewn tri cham a byddant yn effeithio ar:

Y rhan fwyaf o rieni unigol sy'n gwneud cais newydd neu'n gwneud ail gais sydd â:

- plentyn ieuengaf sy'n 12 oed neu drosodd o 24 Tachwedd 2008;
- plentyn ieuengaf sy'n 10 oed neu drosodd o 26 Hydref 2009; a
- plentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu drosodd o 25 Hydref 2010.

- 1.6 Yn hytrach, gall y rhai sy'n gallu cymryd talu cyflogaeth wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith a gall y rhai sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Bydd y Cymhorthdal Incwm presennol i'r rhan fwyaf o rieni unigol yn dod i ben erbyn:

- Rhagfyr 2009 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 12 oed neu drosodd;
- Medi 2010 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 10 oed neu drosodd; ac
- Ebrill 2011 ar gyfer rhieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu drosodd.

- 1.7 I ategu'r newidiadau hyn, mae cyfres o fesurau (gweler Atodiad 1) wedi'u cynllunio i helpu rhieni unigol i baratoi ar gyfer gwaith a symud i mewn i waith. Bydd y mesurau hyn yn cefnogi'r ddarpariaeth bresennol sydd eisoes ar gael i helpu rhieni unigol.

Eithriadau

- 1.8 Gall rhai rhieni unigol barhau i gael Cymhorthdal Incwm o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft:
- os ydynt yn rhiant maeth a bod ganddynt blentyn maeth yn byw gyda hwy;
 - os ydynt yn cael Lwfans Gofalwr;
 - os oes ganddynt blentyn dibynnol sy'n cael cyfradd ganol neu gyfradd uchaf elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl;
- 1.9 Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Caiff rhieni unigol ragor o wybodaeth am p'un a fydd y newidiadau yn berthnasol iddynt hwy mewn trafodaethau gyda'u hymgyngorydd.

Cyfweliadau Chwarterol sy'n Canolbwyntio ar Waith yn y Flwyddyn Derfynol

- 1.10 Cyflwynwyd cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith amlach i rieni unigol y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt i roi mwy o gymorth iddynt. Fe'u cynhelir bob tri mis yn ystod y flwyddyn cyn i Gymhorthdal Incwm rhieni unigol ddod i ben, er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw ac egluro'r gwahaniaethau yn y budd-daliadau a'r cyfrifoldebau.
- 1.11 Caiff y cyfweliadau chwarterol hyn sy'n canolbwyntio ar waith eu cyflwyno drwy gydol y tri cham fel a ganlyn:
- 24 Tachwedd 2008 - i rieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sydd rhwng 9 a 11 oed
 - 26 Hydref 2009 - i rieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sydd rhwng 6 a 8 oed
 - 25 Hydref 2010 - i rieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 6 oed.

Newidiadau i bob rhiant

- 1.12 Cyflwynwyd hyblygrwydd ychwanegol yn y rheoliadau Lwfans Ceisio Gwaith sy'n cydnabod bod rhai rheini yn wynebu amgylchiadau y gallai fod angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt. Mae hyn er mwyn diwallu eu hanghenion unigol a gwarchod y cwsmeriaid sydd fwyaf agored i niwed. Cyflwynwyd newidiadau gweithredol hefyd i ddarparu ar gyfer rhieni unigol mewn amgylchiadau penodol (gweler adran 2).

Newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith i rieni unigol sydd â phlentyn sy'n 12 oed neu'n iau

- 1.13 Daeth y Rheoliadau Lwfans Ceisio Gwaith (Rhieni Unigol) (Argaeledd am Waith) 2010, i rym ar 26 Ebrill 2010. Mae'n galluogi rhieni unigol cymwys sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith sydd â phlentyn sy'n 12 oed neu'n iau, cyfyngu ar yr oriau y maent ar gael am waith i oriau ysgol arferol eu plant.

2. Newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith i bob rhiant

- 2.1 Ar 24 Tachwedd 2008, gwnaed newidiadau i'r Lwfans Ceisio Gwaith i roi cysondeb/tegwch a hyblygrwydd i **bob ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn sy'n byw yn ei gartref.**

Rheswm cyfiawn

- 2.2 Os bydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn gadael swydd am resymau gofal plant, mae'n rhaid i ymgynghorwyr ystyried argaeledd ac addasrwydd gofal plant wrth ystyried a oedd yn afresymol i'r unigolyn aros yn y swydd. Rhaid i ymgynghorwyr ystyried unrhyw dreuliau gofal plant y bu'n rhaid i'r unigolyn eu talu oherwydd y swydd pan fyddant yn gyfran afresymol o uchel o enillion y person. Yna bydd Swyddog Penderfyniadau'r Farchnad Lafur yn ystyried yr holl amgylchiadau wrth benderfynu a oedd ganddo reswm cyfiawn dros adael ei swydd heb chwilio am waith arall â thâl neu drafod newid oriau/patrwm gweithio gyda'i gyflogwr presennol.

Achos da

- 2.3 Os bydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn gwrthod cymryd swydd neu'n gwrthod cydymffurfio â Chyfarwyddyd Ceisiwr Gwaith am resymau gofal plant, yna rhaid i ymgynghorwyr ystyried argaeledd ac addasrwydd y gofal plant wrth ystyried a oedd yn afresymol i'r unigolyn wrthod cymryd swydd neu wrthod cydymffurfio â'r cyfarwyddyd ceisiwr gwaith. Rhaid i ymgynghorwyr ystyried unrhyw dreuliau gofal plant hefyd y byddai'n rhaid i'r unigolyn hwnnw eu talu o ganlyniad i'r gyflogaeth neu'r cyfarwyddyd. Bydd Swyddog Penderfyniadau'r Farchnad Lafur yn ystyried pob achos pan fydd unigolyn â chyfrifoldebau gofalu yn gwrthod neu'n methu â chyflawni cyfarwyddyd ceisiwr gwaith am fod cyfrifoldebau gofal plant yn golygu y byddai'n afresymol iddo wneud hynny.

Gofal plant fforddiadwy a phriodol

- 2.4 Nid yw'n bosibl rhoi diffiniad o'r gofal plant y gall ceisiwr gwaith ei ystyried yn fforddiadwy neu'n briodol i'w blentyn/plant gan fod pob achos yn wahanol. Bydd yn rhaid ystyried ffeithiau pob achos yn unigol.

Rhagolygon cyflogaeth rhesymol

- 2.5 O 24 Tachwedd 2008, pan fydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn dymuno cyfyngu ei argaeledd i 16 awr, ond na fyddai ganddo ragolygon rhesymol o gael cyflogaeth ddiogel oherwydd y mathau o swyddi sydd ar gael yn yr ardal, gall gyfyngu'r oriau y mae ar gael i weithio hyd at uchafswm o 16 awr heb gael ei gosbi. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y gallai barhau i gael ei daliadau Lwfans Ceisio Gwaith.

Argyfwng domestig

- 2.6 Os oes marwolaeth, salwch difrifol neu argyfwng domestig yn ymwneud â'r rhiant unigol neu berthynas neu ffrind agos, ystyrir bod gan y rhiant unigol achos da dros beidio â mynychu ei Adolygiadau Swyddi Bob Pythefnos. Gall y Ganolfan Byd Gwaith dderbyn hefyd nad yw ar gael i weithio am un wythnos ar bedwar achlysur mewn unrhyw 12 mis ar y mwyaf. Gellir cynyddu un o'r cyfnodau hyn hyd at 8 wythnos gyda'r gweddill yn cael ei gymryd mewn tri chyfnod o un wythnos. Dim ond unwaith mewn unrhyw gyfnod 12 mis y gall hyn ddigwydd. Os oes angen mwy o amser ar y ceisiwr gwaith, bydd ei ymgynghorydd yn ystyried a fyddai'n fwy priodol iddo wneud cais am fudd-dal arall.

Gorchymyn/contract rhianta

- 2.7 Lle y mae gan geisiwr gwaith gontract rhianta (yng Nghymru a Lloegr) neu orchymyn rhianta (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban), gall gyfyngu ei argaeledd ar gyfer gwaith, cyn belled â bod y cyfyngiadau yn rhesymol yng ngoleuni'r gorchymyn neu'r contract.

Argaeledd ac wrthi'n chwilio am waith

- 2.8 Gall fod achosion lle na fydd ceiswyr gwaith yn gallu cael gofal plant fforddiadwy a phriodol yn ystod gwyliau'r ysgol (neu gyfnodau gwyliau tebyg) neu lle y caiff plentyn ei ddiarddel o'r ysgol.
- 2.9 Gellir ystyried bod ceiswyr gwaith sy'n wynebu'r anawsterau hyn ar gael i weithio ac ni fydd rhaid iddynt fynd i gyfweliad.

Mynd i gyfweliad neu ddechrau mewn swydd

- 2.10 Mae gan geiswyr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn 7 diwrnod i fynd i gyfweliad a 28 diwrnod i dderbyn cynnig swydd lle y gallent ddangos ei bod yn afresymol iddynt fodloni'r meini prawf presennol.

Newidiadau gweithredol

Cofrestru drwy'r post

- 2.11 Os na all ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn drefnu gofal plant tymor byr i'w alluogi i gofrestru, dylai gysylltu â'r Ganolfan Gwaith i drafod dewisiadau amgen. Os caiff ei dderbyn nad oes gofal plant addas ar gael, rhoddir trefniadau ar waith i alluogi'r rhiant i gofrestru drwy'r post ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Methu Mynychu/Methu â Darparu Datganiad wedi'i Lofnodi

- 2.12 Gellid gwrthod ceisiadau os na fydd ceisiwr gwaith sydd â chyfrifoldebau gofalu am blentyn yn mynychu pan fydd angen neu gellid dod â'r cais i ben os na fydd wedi dangos achos da dros y methiant o fewn pum diwrnod gwaith. Byddwn yn ceisio cysylltu â cheisiwr gwaith dros y ffôn o leiaf unwaith ar y diwrnod y bydd yn methu â mynychu ei gyfweiliad yn y Ganolfan Byd Gwaith. Byddwn hefyd yn anfon llythyr ar y diwrnod hwnnw i'w hysbysu o'r angen i gysylltu ar frys o fewn pum diwrnod gwaith o'r apwyntiad ac i'w hysbysu y gellir effeithio ar ei fudd-dal. Os na fydd yn ymateb, daw ei fudd-dal i ben ar ôl pum diwrnod gwaith.

Amser teithio

- 2.13 Wrth sefydlu'r Cytundeb Ceisio Gwaith, bydd ymgynghorwyr yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn wrth ystyried faint o amser fyddai'n rhesymol iddo ei deithio i swydd. Mae rheolau'r Lwfans Ceisio Gwaith yn pennu amser teithio o hyd at awr bob ffordd o fewn 13 wythnos gyntaf cais am Lwfans Ceisio Gwaith ac 1.5 awr bob ffordd ar ôl hynny. Bydd staff y Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn ystyried iechyd neu gyfrifoldebau gofal ac yn ystyried a yw'r amser teithio i swydd yn rhesymol, a byddent yn cynnwys unrhyw amser rhesymol i ollwng a chasglu plant o'r ysgol neu ofal plant.

3. Amserlen ar gyfer symud rhieni unigol oddi ar Gymhorthdal Incwm

3.1 Mae'r amserlenni canlynol yn rhoi manylion pa newidiadau sy'n gymwys ar gyfer camau 2 a 3:

3.1.1 Dechreuodd Cam 2 ar 26 Hydref 2009 ar gyfer:

Cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n gwneud ail gais

- Ni fydd gan y rhan fwyaf o rieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 10 oed neu drosodd ac sy'n gwneud cais am fudd-dal yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm.

Cwsmeriaid presennol

- Gwahoddir y rheini sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 11 oed neu drosodd i gyfweiliad gwirfoddol o 30 Tachwedd 2009, ac o 30 Ebrill 2010 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rheini sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 10 oed neu drosodd i gyfweiliad gwirfoddol o 12 Ebrill 2010, ac o 8 Ebrill 2010 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rhai sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 9 oed ar 26 Hydref 2009 i gyfweiliad gwirfoddol wrth i'w plentyn nesáu at ei ben-blwydd yn 10 oed.

3.1.2 Mae Cam 3 yn dechrau ar 25 Hydref 2010 ar gyfer:

Cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid sy'n gwneud ail gais

- Ni fydd gan y rhan fwyaf o rieni unigol sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu drosodd ac sy'n gwneud cais am fudd-dal yr hawl i gael Cymhorthdal Incwm.

Cwsmeriaid presennol

- Gwahoddir y rheini sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 9 oed neu drosodd i gyfweiliad gwirfoddol o 30 Awst 2010, ac o 31 Ionawr 2011 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rheini sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 7 oed neu drosodd i gyfweiliad gwirfoddol o 25 Hydref 2010, ac o 1 Ebrill 2011 ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.
- Gwahoddir y rheini sydd â phlentyn ieuengaf sy'n 6 oed ar 25 Hydref 2010 i gyfweiliad gwirfoddol wrth i'w plentyn nesáu at ei ben-blwydd yn 7 oed.

Gweler Atodiad 2 am fanylion llawn o pryd y daw taliadau Cymhorthdal Incwm rhieni unigol i ben.

4. Newidiadau ar gyfer grwpiau penodol

Gofalwyr maeth

- 4.1 Os bydd rhiant unigol yn maethu bydd ganddo hawl i gael Cymhorthdal Incwm tra bod plentyn yn byw gydag ef dan ei ofal. Rhaid i'r rhiant unigol hysbysu'r Ganolfan Byd Gwaith ar unwaith os bydd ei amgylchiadau yn newid.

Myfyrwyr

- 4.2 Cyn 24 Tachwedd 2008 roedd gan rieni unigol a oedd yn fyfyrwyr llawn amser hawl i gael Cymhorthdal Incwm o hyd. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr llawn amser yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith oherwydd y cânt eu trin fel pobl nad ydynt ar gael i weithio.
- 4.3 Gall rhieni unigol sy'n fyfyrwyr llawn amser neu sydd ar gwrs neu hyfforddiant llawn amser fel rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, neu fel rhan o raglen gymeradwy sy'n bodloni amcanion y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, barhau i gael Cymhorthdal Incwm o leiaf hyd at y dyddiad:
- y daw'r cwrs i ben neu y byddant yn rhoi'r gorau i'w fynychu; neu
 - y mae eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd oedran lle y byddai ei hawl i fudd-dal wedi dod i ben o dan y rheolau a oedd ar waith pan ddechreuodd y cwrs, pa un bynnag a ddaw gyntaf.
- 4.4 Ar gyfer rhieni unigol a ddechreuodd gwrs llawn amser neu sy'n dechrau cwrs llawn amser:
- cyn 24 Tachwedd 2008, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan gaiff eu plentyn ieuengaf ei ben-blwydd yn 16 oed, p'un bynnag a ddaw gyntaf;
 - ar neu ar ôl 24 Tachwedd 2008 a chyn 26 Hydref 2009, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan gaiff eu plentyn ieuengaf ei ben-blwydd yn 12 oed, p'un bynnag a ddaw gyntaf;
 - ar neu ar ôl 26 Hydref 2009 a chyn 25 Hydref 2010, daw eu hawliad i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r cwrs neu pan gaiff eu plentyn ieuengaf ei ben-blwydd yn 10 oed, p'un bynnag a ddaw gyntaf; ac
 - ar neu ar ôl 25 Hydref 2010 byddant yn destun yr un rheolau â rhieni unigol eraill a daw eu hawliad i ben pan gaiff eu plentyn ieuengaf ei ben-blwydd yn 7 oed.

Gwarchodwyr plant hunangyflogedig

- 4.5 O 24 Tachwedd 2008, ni all unrhyw rhiant unigol sy'n gweithio fel gwarchodwr plant weithio dros 16 awr yr wythnos a pharhau i hawlio Cymhorthdal Incwm. Cyflwynwyd newidiadau yn unol ag oedran y plentyn ieuengaf fel a ganlyn:
- ers 24 Tachwedd 2008, nid oes ganddynt hawl bellach i wneud cais am Gymhorthdal Incwm pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cael ei ben-blwydd yn 12 oed
 - ers 26 Hydref 2009 nid oes ganddynt hawl bellach i wneud cais am Gymhorthdal Incwm pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cael ei ben-blwydd yn 10 oed, ac
 - ers 25 Hydref 2010 nid oes ganddynt hawl bellach i wneud cais am Gymhorthdal Incwm pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cael ei ben-blwydd yn 7 oed.
- 4.6 Os ydynt yn gweithio fel gwarchodwr plant am lai nag 16 awr yr wythnos bydd angen iddynt wneud cais am fudd-dal arall. Os ydynt yn gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos cânt eu trin fel rhywun sydd mewn gwaith llawn amser ac ni fyddant yn gallu gwneud cais am fudd-dal arall. O ganlyniad bydd angen iddynt ennill arian fel person hunangyflogedig a chofrestru hyn gyda Chyllid a Thollau EM. Gallent hefyd fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith, y gallant wneud cais amdano gan Gyllid a Thollau EM.

5. Taliadau a didyniadau eraill

Credyd Treth Plant

- 5.1 Mae nifer o rieni unigol yn cael Cymhorthdal Incwm y mae cynnydd dibyniaeth plant yn daladwy iddynt. Pan fydd y cwsmeriaid hyn yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ni fydd cynnydd dibyniaeth plant yn daladwy a bydd angen i'r rhiant unigol wneud cais am Gredyd Treth Plant.
- 5.2 Anogwyd rhieni unigol i wneud cais am Gredyd Treth Plant o fis Medi 2008 pan aethant i gyfweiliadau sy'n canolbwyntio ar waith ac mewn Digwyddiadau Opsiwn a Dewisiadau. Gaiff hyn ei drafod hefyd yn eu cyfweiliad gwirfoddol a gynhelir 6 wythnos cyn i'w Cymhorthdal Incwm ddod i ben. Lle na wneir cais am Gredyd Treth Plant, defnyddir y ddeddfwriaeth Credyd Treth bresennol i hwyluso ceisiadau ar gyfer Credyd Treth Plant gyda'r bwriad o sicrhau y telir taliadau Credyd Treth Plant ymhell cyn i'r Cymhorthdal Incwm ddod i ben. Bydd hyn yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth a bydd yn atal unrhyw fylchau mewn taliadau.
- 5.3 Fel dull diogelu ychwanegol, ac er mwyn ystyried ceisiadau am Gredyd Treth Plant a allai fod yn fwy anodd gwneud penderfyniadau arnynt, gall hawl barhau am bedair wythnos arall mewn rhai achosion. Estynnir Cymhorthdal Incwm bedair wythnos mewn achosion lle y gwnaed cais am Gredyd Treth Plant ond ni wnaed penderfyniad ar y dyddiad y byddai hawliad y rhiant unigol yn dod i ben fel arall.
- 5.4 Mewn rhai achosion pan ddyfernir Credyd Treth Plant, gall swm y Credyd Treth Plant a delir fod yn fwy na'r Cymhorthdal Incwm a geir. Yn yr amgylchiadau hyn bydd y cwsmer yn well ei fyd ond bydd ei Gymhorthdal Incwm yn dod i ben ar unwaith. Os bydd hyn yn digwydd a bod y cwsmer yn cael help gyda Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ar hyn o bryd, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'w Awdurdod Lleol am y newid yn ei amgylchiadau fel y gall ystyried hyn os bydd angen.

Didyniadau

- 5.5 Lle y mae gan riant unigol ddidyniadau ar waith o'i Gymhorthdal Incwm, byddwn yn trefnu iddynt barhau os rhoddir budd-dal newydd.

Budd-daliadau pasbort

- 5.6 Bydd y newid o Gymhorthdal Incwm i Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cael ei drin fel newid mewn amgylchiadau at ddibenion Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ac felly, ni ddylai fod unrhyw doriad i'r hawliad na thalu'r budd-daliadau hyn.

6. Y broses ar gyfer terfynu Cymhorthdal Incwm

- 6.1 Dim ond ar gwsmeriaid presennol nad ydynt wedi'u heithrio y bydd y broses ganlynol yn effeithio ac mae'n egluro sut y daw eu Cymhorthdal Incwm i ben a'r camau nesaf i'w cymryd.

Cam 1

Gwahoddiad am gyfweiliad gwirfoddol

- 6.2 **Wyth wythnos cyn** y daw Cymhorthdal Incwm y rhiant unigol i ben bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn ysgrifennu at y rhiant unigol i roi gwybod iddo pryd y caiff ei daliad olaf a'i wahodd am gyfweiliad.

Cam 2

Y cyfweiliad

- 6.3 Cynhelir y cyfweiliad **6 wythnos cyn** y daw Cymhorthdal Incwm y rhiant unigol i ben.
- 6.4 Os na fydd y rhiant unigol wedi dod o hyd i waith â thâl ar y cam hwn, bydd cynghorydd personol yn ei helpu i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith os gall weithio neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os na all weithio oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd.

Cam 3

Yn y cyfweiliad

- 6.5 Cynhelir y cyfweiliad gwirfoddol gan ymgynghorydd a disgwylir iddo bara 40 munud. Yn ystod y cyfweiliad bydd yr ymgynghorydd yn:
- dweud wrth y rhiant unigol os bydd y newidiadau yn effeithio arno, a sut a phryd y bydd hyn yn digwydd os yw hynny'n briodol;
 - trafod y cymorth sydd ar gael i'w baratoi i symud i gyflogaeth â thâl;
 - ei gynorthwyo i wneud cais am Gredyd Treth Plant os oes angen;
 - trafod mynediad i'r Fargen Newydd ar gyfer rhieni unigol/y Fargen Newydd hyblyg;
 - egluro'r amodau hawliad os bydd yn penderfynu gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth;
 - ei gynorthwyo i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth;
 - os yw'n briodol, dweud wrtho sut i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl os oes ganddo blentyn ag anabledd a'i gynorthwyo i wneud hynny;
 - dweud wrtho pryd y gall ddisgwyl cael taliad cyntaf ei fudd-dal newydd a'r cyfnod y bydd yn ei gwmpasu.

- 6.6 Rhoddir nodyn Camau Nesaf i'r rhiant unigol yn ei hysbysu o ddyddiad ei daliad Cymhorthdal Incwm olaf, dyddiad ac amser ei Gyfweliad Ceisiwr Gwaith newydd a dyddiad ei daliad Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyntaf. Bydd hefyd yn dangos cyfeiriad/manylion cyswllt ymholiadau'r Ganolfan Trafod Budd-daliadau.

Cam 4

Llythyr cwsmer cyn i Gymhorthdal Incwm ddod i ben

- 6.7 Bedair wythnos cyn i Gymhorthdal Incwm ddod i ben, bydd y rhiant unigol yn cael llythyr o'r Ganolfan Trafod Budd-daliadau yn ei hysbysu y daw ei Gymhorthdal Incwm i ben.
- 6.8 Os nad yw'r rhiant unigol wedi mynychu ei gyfweliad gwirfoddol ar y cam chwe wythnos, caiff ei wahodd i ail gyfweliad. Os na fydd y rhiant unigol yn mynd i'r ail gyfweliad, anfonir llythyr pellach yn egluro'r angen iddo gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.
- 6.9 Os na fu unrhyw gysylltiad gyda swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith yn ystod y 3 mis blaenorol, er enghraifft mewn Digwyddiad Opsiynau a Dewisiadau, Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith neu gyfweliad llwyth achosion, yna gellir ystyried ymweliad cartref.

Cam 5

Llythyr penderfyniad ffurfiol cwsmer

- 6.10 Bum diwrnod cyn i Gymhorthdal Incwm ddod i ben, bydd y rhiant unigol yn cael llythyr penderfyniad ffurfiol yn ei hysbysu y daw ei Gymhorthdal Incwm i ben.

Gweler atodiad 3 am Gam 2, llythyrau cyfweliad gwirfoddol.

Gweler atodiad 4 am Gam 3, llythyrau cyfweliad gwirfoddol.

7. Rhoi gwybod i rieni unigol am y newidiadau

Digwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau

- 7.1 Bydd rhieni unigol yn parhau i gael eu gwahodd i Ddigwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau a fydd yn rhoi gwybodaeth iddynt am:
- sut y gall y Ganolfan Byd Gwaith a'n partneriaid eu helpu i baratoi i ddychwelyd i'r gwaith;
 - sut mae'r farchnad lafur leol yn gweithio i gynorthwyo rhieni unigol i ddychwelyd i'r gwaith;
 - eu hopsiynau pan ddaw eu hawliad i gael Cymhorthdal Incwm i ben.
 - y mathau o ofal plant sydd ar gael iddynt;
 - yr help sydd ar gael tuag at gost gofal plant.
- 7.2 Mae'r digwyddiadau hyn:
- yn cael eu hargymell i 12 i 15 o rieni unigol, wedi'u cynnal yn ystod oriau ysgol ac yn ystod y tymor; ac yn caniatáu amser rhesymol i fynd â phlant i'r ysgol a'u casglu;
 - yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau dan arweiniad y Ganolfan Byd Gwaith a, lle y bo'n bosibl, yn cynnwys cyflogwyr a phartneriaid eraill; ac
 - yn cael eu cynnal mewn amgylchedd marchnad lafur proffesiynol mewn safleoedd cyflogwyr neu bartneriaid neu Ganolfannau Gwaith.
- 7.3 Ar ddiwedd y Digwyddiad Opsiynau a Dewisiadau, caiff pob rhiant unigol y cyfle i gael eu gweld yn unigol, lle y bydd ymgynghorydd yn gweithio gyda hwy i nodi camau gweithredu penodol. Un o'r canlyniadau posibl fydd llofnodi'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol.

Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith

- 7.4 Rhoddir gwybod i rieni unigol am y newidiadau i'r Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith gorfodol.

Ymgyrchoedd postio ar gyfer rhieni unigol

- 7.5 Cynhaliwyd ymgyrch bostio yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 21 Medi 2009 ar gyfer rhieni unigol y bydd eu Cymhorthdal Incwm yn dod i ben yn ystod cam 2. Eglurodd yr ymgyrch bostio hon y broses ar gyfer dod â Chymhorthdal Incwm i ben ac roedd yn cynnwys taflen o wybodaeth bellach.

Gweler atodiad 5 am Gam 2, llythyrau'r ymgyrch bostio.

- 7.6 Cynhaliwyd ymgyrch bostio yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 5 Hydref 2009 ar gyfer rhieni unigol y bydd eu Cymhorthdal Incwm yn dod i ben yn ystod cam 3. Eglurodd yr ymgyrch bostio hon y Cyfweiliadau Chwarterol sy'n Canolbwyntio ar Waith yn y Flwyddyn Derfynol ac roedd yn cynnwys taflen o wybodaeth bellach.

Gweler atodiad 6 am Gam 3, llythyrau'r ymgyrch bostio.

Taflenni ffeithiau

- 7.7 Ceir dalenni ffeithiau (gweler y rhestr isod) sy'n rhoi cyflwyniad i'r newidiadau.

- **Taflen Ffeithiau 1** – Newidiadau cyffredinol i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol o fis Hydref 2009 (cwsmeriaid cam 2)
- **Taflen Ffeithiau 1** – Newidiadau cyffredinol i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol o fis Hydref 2010 (cwsmeriaid cam 3)
- **Taflen ffeithiau 2** – (generig) Lwfans Ceisio Gwaith i rieni unigol

Mae taflenni ffeithiau ar gael drwy ddilyn y cysylltiadau canlynol:

- **Taflen ffeithiau 1 a 2** – www.dwp.gov.uk/lone-parent-changes

Pecyn cymorth

Cymorth ychwanegol i rieni unigol:

- **Digwyddiadau Opsiynau a Dewisiadau i rieni unigol** – maent yn cynnig cymorth i rieni unigol wneud penderfyniadau hyddysg am symud i mewn i waith. Mae mynd i Ddigwyddiad Opsiynau a Dewisiadau yn ddewisol ac nid yw'n effeithio ar unrhyw hawl i fuddal.
- **Cyfweliad Swydd Gwarantedig** – mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol fel y gallant drefnu cyfweliad gyda rhieni unigol lle y bo'n bosibl pan fyddant yn barod i ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn hefyd ar gael drwy Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol.
- **Treialon Gwaith** – mae Treial Gwaith yn rhoi cyfle i rieni unigol roi cynnig ar swydd wag wirioneddol gyda chyflogwr am hyd at 30 diwrnod gwaith.
- **Credyd Mewn Gwaith** – Mae Credyd Mewn Gwaith yn rhoi cymorth i rieni unigol wrth symud o fudd-daliadau i waith drwy roi hyd at 52 o daliadau wythnosol o £40 ledled y DU a £60 yn Llundain.
- **Cymorth Ymgynghorol Mewn Gwaith gan ymgynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith** – cynigir cymorth ac arweiniad parhaus gan ymgynghorydd personol i bob rhiant unigol sydd wedi symud i mewn i waith am hyd at 26 wythnos i helpu i ddatrys unrhyw anawsterau ac i gyfeirio unigolion tuag at gymorth arall.

Atodiad 2

Amserlen Newidiadau

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng
<p>Cam 2 26 Hydref 2009</p>				
<p>Cam 2 26 Hydref 2009</p>		<p>O 26 Hydref 2009 y plentyn ieuengaf yn 10 oed neu drosodd ar adeg gwneud y cais.</p> <p>Dyddiad geni ar neu cyn 26.10.99</p>	<p>O 26 Hydref 2009, ni fydd hawl gan rieni unigol sy'n gwneud cais newydd neu ail gais y mae eu plentyn ieuengaf yn 10 oed neu drosodd i gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig mwyach.</p>	Dd/G

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng												
Cam 2a 26 Hydref 2009	Stoc ¹	Plentyn ieuengaf yn 11 oed neu drosodd ar neu cyn 31 Ionawr 2010 Dyddiad geni rhwng 25 Tachwedd 1997 a 31 Ionawr 1999	I'r rhieni unigol hynny y mae eu plentyn ieuengaf eisoës yn 11 oed ar 26 Hydref 2009 neu sy'n cael ei ben-blwydd yn 11 oed ar neu cyn 31 Ionawr 2010 , bydd ei hawl i Gymhorthdal Incwm yn dod i ben o ddiwrnod cyntaf yr wythnos budd-dal y mae'r Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith nesaf ar neu ar ôl 1 Chwefror 2010 (gwneir y taliad olaf ar y diwrnod talu yn yr wythnos budd-dal flaenorol)	Tynnu'r Cymhorthdal Incwm sy'n gysylltiedig â'r Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol nesaf ar ôl 1/2/10 Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol- dyddiad y cyfweliad olaf posibl = 29/1/10 Dyddiad y Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol nesaf = 30/4/10 <table border="1"> <thead> <tr> <th>Wythnos Budd-dal yn dod i ben</th> <th>Telir Cymhorthdal Incwm</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Dydd Llun</td> <td>26/04/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Mawrth</td> <td>27/04/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Mercher</td> <td>28/04/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Iau</td> <td>29/04/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Gwener</td> <td>23/04/10</td> </tr> </tbody> </table>	Wythnos Budd-dal yn dod i ben	Telir Cymhorthdal Incwm	Dydd Llun	26/04/10	Dydd Mawrth	27/04/10	Dydd Mercher	28/04/10	Dydd Iau	29/04/10	Dydd Gwener	23/04/10
Wythnos Budd-dal yn dod i ben	Telir Cymhorthdal Incwm															
Dydd Llun	26/04/10															
Dydd Mawrth	27/04/10															
Dydd Mercher	28/04/10															
Dydd Iau	29/04/10															
Dydd Gwener	23/04/10															

¹ **Diffiniad o stoc** – rhiant unigol oedd yn cael Cymhorthdal Incwm ac yr oedd ei blentyn ieuengaf eisoës wedi cyrraedd yr oedran a nodwyd ar y dyddiad cyn y daeth y newid rheoliadol i rym.

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng
Cam 2a 26 Hydref 2009	Llif ²	Plentyn ieuengaf yn cael ei ben-blwydd yn 11 oed ar neu ar ôl 1 Chwefror 2010 Dyddiad geni rhwng 1 Chwefror 1999 a 26 Hydref 1999	I'r rhieni unigol hynny y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 10 oed ar 26 Hydref 2009 ond sy'n dod yn 11 oed ar 1 Chwefror 2010 neu ar ôl hynny , bydd eu hawl i Gymhorthdal Incwm yn dod i ben ar y dyddiad talu Cymhorthdal Incwm ar ôl y dyddiad y caiff y plentyn ei ben-blwydd yn 11 oed.	Cysylltiedig â phen-blwydd fel ar hyn o bryd

² **Diffiniad o lif** – mae plentyn ieuengaf rhiant unigol sy'n cael Cymhorthdal Incwm yn cyrraedd yr oedran a nodwyd ar y dyddiad ar neu ar ôl i'r newid rheoliadol ddod i rym.

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng												
<p>Cam 2b 26 Hydref 2009</p>	Stoc	<p>Plentyn ieuengaf yn 10 oed ar neu cyn 6 Mehefin 2010</p> <p>Dyddiad geni rhwng 27 Hydref 1999 a 6 Mehefin 2000</p>	<p>I'r rhieni unigol hynny y mae eu plentyn ieuengaf eisoed yn 9 oed ar 26 Hydref 2009 neu sy'n dod yn 10 oed ar neu cyn 6 Mehefin 2010, bydd eu hawl i Gymhorthdal Incwm yn dod i ben ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos budd-dal y mae'r Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith nesaf neu ar ôl 7 Mehefin 2010 (gwneir y taliad olaf ar y diwrnod talu yn yr wythnos budd-dal flaenorol)</p>	<p>Tynnu'r Cymhorthdal Incwm sy'n gysylltiedig â'r Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol nesaf ar ôl 07/06/10</p> <p>Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol- dyddiad y cyfweliad olaf posibl = 04/06/10</p> <p>Dyddiad y Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith Chwarterol y Flwyddyn Derfynol nesaf = 03/09/10</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Wythnos Budd-dal yn dod i ben</th> <th>Telir Cymhorthdal Incwm</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Dydd Llun</td> <td>30/08/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Mawrth</td> <td>31/08/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Mercher</td> <td>01/09/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Iau</td> <td>02/09/10</td> </tr> <tr> <td>Dydd Gwener</td> <td>27/08/10</td> </tr> </tbody> </table>	Wythnos Budd-dal yn dod i ben	Telir Cymhorthdal Incwm	Dydd Llun	30/08/10	Dydd Mawrth	31/08/10	Dydd Mercher	01/09/10	Dydd Iau	02/09/10	Dydd Gwener	27/08/10
Wythnos Budd-dal yn dod i ben	Telir Cymhorthdal Incwm															
Dydd Llun	30/08/10															
Dydd Mawrth	31/08/10															
Dydd Mercher	01/09/10															
Dydd Iau	02/09/10															
Dydd Gwener	27/08/10															

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng
Cam 2b 26 Hydref 2009	Llif	Plentyn ieuengaf yn dod yn 10 oed ar neu ar ôl 7 Mehefin 2010 Dyddiad geni rhwng 7 Mehefin 2000 a 26 Hydref 2000	I'r rhieni unigol hynny y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 9 oed ar 26 Hydref 2009 ond sy'n dod yn 10 oed ar neu ar ôl 7 Mehefin 2010 , bydd eu hawl i Gymhorthdal Incwm yn dod i ben ar ddiwrnod talu'r Cymhorthdal Incwm ar ôl y dyddiad y daw'r plentyn yn 10 oed.	Cysylltiedig â phen-blwydd fel ar hyn o bryd
Cam 3 25 Hydref 2010	<ul style="list-style-type: none"> • Rhieni unigol yn dod yn Stoc a Llif Cam 3 dim ond os <ul style="list-style-type: none"> ◆ Byddant yn cael Cymhorthdal Incwm fel rhiant unigol ar 24 Hydref 2010 ◆ Mae eu plentyn ieuengaf yn 6-9 oed ar 25 Hydref 2010 • Ni fydd rhieni unigol sy'n gwneud ceisiadau newydd/ailgeisiadau o 25 Hydref 2010 yn dod yn rhan o stoc a llif Cam 3 • Newidiadau i ddod i rym sy'n gysylltiedig ag oedran ar y dyddiad perthnasol – 25 Hydref 2010 			
Cam 3 25 Hydref 2010	Ceisiadau newydd ac Ailgeisiadau	O 25 Hydref 2010 y plentyn ieuengaf yn 7 oed neu drosodd ar adeg gwneud y cais. Dyddiad geni ar neu cyn 25 Hydref 2003	O 25 Hydref 2010 , ni fydd hawl gan rieni unigol sy'n gwneud cais newydd neu ail gais y mae eu plentyn ieuengaf yn 7 oed neu drosodd i gael Cymhorthdal Incwm ar y sail eu bod yn rhiant unigol yn unig mwyach.	Dd/G

Cam a dyddiad perthnasol	Statws cais	Oedran a dyddiad geni'r plentyn	Newidiadau i ddod i rym	Bydd y taliadau olaf rhwng												
